



**COMMUNITY
FOUNDATION**

2022-23

**ADRODDIAD
EFFAITH**



Diolch am roi o'ch amser i ddarllen ein Hadroddiad Effaith 2022/23 sy'n rhoi trosolwg o'r gwahaniaeth cadarnhaol mae'r elusen wedi'i wneud yng nghymunedau Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd dros y 12 mis diwethaf.



Wrth galon ein cenhadaeth mae'r gred bod clybiau pêl-droed yn gallu ysbrydoli gobaith, angerdd ac ymdeimlad o berthyn. O sefydlu Clwb Pêl-droed Riverside yn 1899 i agor Parc Ninian yn 1910, calon y clwb erioed fu'r cymunedau sy'n cefnogi'r Adar Gleision. Drwy weithio gyda'n gilydd, gall y clwb, y Sefydliad Cymunedol a'n cymunedau gyflawni pethau gwych.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyfres o ddiwyddiadau allanol wedi effeithio ar ein cymunedau, gan gynnwys effaith pandemig byd-eang, argyfwng ynni a'r argyfwng costau byw.

Mae'r gwirioneddau hyn wedi ychwanegu at yr hyn y gellir ei alw'n 'polygreisis – nifer o argyfyngau ar yr un pryd sy'n ddibynol iawn ar ei gilydd. Fel llawer o elusennau eraill rydym wedi gorfod ymateb i'r newid yn y galw am wasanaethau yn erbyn amgylchedd allanol heriol.

Fe wnaethom barhau i ddarparu gwasanaethau a gyfrannodd at ein canlyniadau hirdymor: gwella iechyd a lles, cefnogi dysgu a sgiliau, ac adeiladu cymunedau cryfach. O addysg gynradd i allgymorth cymunedol, rhaglenni â ffocws ieuencid i fentrau sy'n cefnogi addysg uwch, roedd ein hat-tric o amcanion yn gwasanaethu fel ein cwmpawd, gan ein harwain tuag at gael effaith barhaol ac ystyrlon.

Cyrhaeddodd ymgysylltiad ein gwasanaethau uchafbwynt 5 mlynedd gyda chyfanswm presenoldeb blynyddol yn fwy na 120,000. Roedd datblygiadau gwasanaeth yn cynnwys adnewyddu ac ehangu cyrhaeddiad ein rhaglen Addysg Uwchradd a Hyfforddiant i ateb y newid yn y galw a chyflwyno gwasanaeth rheoli pwysau newydd, FIT Bluebirds.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i gefnogi ein cymunedau drwy'r cyfnod heriol hwn ac addasu ein dull gweithredu i gynyddu ein heffaith gymdeithasol i'r eithaf.

Nawr yn fwy nag erioed, mae pobl angen ein cefnogaeth. Os ydych chi'n adnabod rhywun a allai elwa o'n gwasanaethau, rhowch wybod i ni. Os gall eich sefydliad weithio mewn partneriaeth â ni i ddarparu rhaglen sy'n newid bywydau, cysylltwch â ni. Os ydych chi'n cael eich ysbrydoli gan yr hyn rydych chi'n ei ddarllen yn yr adroddiad hwn, rhannwch ein stori â'ch rhwydwaith.

Gyda'ch cefnogaeth chi, gallwn ni weithio tuag at greu dyfodol gwell i'n cymunedau.

Gavin Hawkey,
Cyfarwyddwr y Sefydliad

CYNNIWYS



03 Amdanom Ni

04 Ein Cyrhaeddiad

05 Ble Rydym yn Gweithio

06 Hatric o Amcanion

09 Gwella Iechyd a Llesiant

14 Cefnogi Dysgu & Sgiliau

19 Creu Cymunedau Cryfach

24 Cyllid

25 Codi Arian

26 Cynlluniau ar Gyfer y Dyfodol

27 Partneriaid a Chefnogwyr

28 Cysylltiadau Allweddol

AMDANOM NI

Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yw elusen swyddogol y Clwb.

Ein gweledigaeth yw i'r bobl yn ein cymunedau gyflawni eu llawn botensial. Ein cenhadaeth yw defnyddio ysbrydoliaeth Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i newid bywydau a thrawsnewid cymunedau.

Rydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn goresgyn rhwystrau drwy helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy egnïol, cefnogi dysgu a sgiliau, a chreu cymunedau cryfach.

Gyda'n gilydd, rydyn ni'n newid y gêm.



EIN ~~X~~ CYRHAEDDIAD

Presenoldeb Cyfranogwyr

120,129

Cyfanswm Presenoldeb

11,544

Cyfranogwyr Unigryw

Demograffeg y Cyfranogwyr

62%

Dynion

38%

Merched

9%

Lleiafrifoedd ethnig

7%

Pobl sy'n byw gydag Anabledd

BLE RYDYM YN GWEITHIO

Roedd 77% o'n sesiynau yn y 50% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda 60% yn cael eu cynnal yn benodol yn y 30% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.



Ardaloedd eraill

5%



RhCT

22%

Bro Morgannwg

16%

Caerffili

8%

Caerdydd

49%

HATRIC O AMCANION



Ein Hatric o Amcanion yw sylfaen ein gwaith, sy'n gyrru popeth a wnawn. Maent wedi'u gwreiddio yn ein holl waith ac ar bob cam o'r gwaith datblygu.


Yn Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, rydym yn harneisio pŵer pêl-droed a Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i gyflawni tri nod:

#1 Gwella Iechyd a Llesiant

#2 Cefnogi Dysgu a Sgiliau

#3 Creu Cymunedau Cryfach

EIN GWASANAETHAU



O addysg gynradd i allgymorth cymunedol, rhaglenni sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc i fentrau sy'n cefnogi addysg uwch, ein Hatric o Amcanion yw ein cwmpawd, sy'n ein harwain at effaith barhaol ac ystyrlon ymhell y tu hwnt i fyd pêl-droed.

Ym maes Addysg Gynradd, rydym yn defnyddio pŵer pêl-droed i gefnogi plant i ddysgu, cadw'n iach, a datblygu sgiliau bywyd hanfodol. Gan symud ymlaen i Addysg Uwchradd, mae ein rhaglenni yn arfogi pobl ifanc â'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i lwyddo wrth iddynt symud ymlaen drwy'r system addysg ac i fod yn oedolion ifanc.

Mae ein rhaglenni Addysg Bellach ac Uwch wedi ymrwymo i feithrin lles pobl ifanc drwy ddarparu astudiaethau addysgol, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth mewn amgylchedd cefnogol.

Yn y cyfamser, mae ein prosiect yn creu cymunedau drwy gynnig sesiynau pêl-droed am ddim a llwybrau datblygiad personol i bobl ifanc.

Y tu hwnt i'r maes, mae ein prosiectau Cymuned Adar Gleision yn ymestyn cymorth i gymunedau ehangach Dinas Caerdydd, gan hyrwyddo llesiant a meithrin ymdeimlad o berthyn drwy fentrau fel Adar Gleision Ffit, Clwb 1927, a'n Hyb Cyn-filwyr.

Drwy'r holl raglenni hyn, dydyn ni ddim yn siarad am ein Hatric o Nodau yn unig; rydyn ni'n gweithio i'w cyflawni, gan adael effaith barhaol a chadarnhaol ar fywydau'r rheini rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Mae ein Theori Newid yn dangos y newid rydym yn ceisio ei wneud, a'r camau sy'n gysylltiedig â gwneud y newid hwnnw.

Mae'n dangos dealltwriaeth gyffredin o'n Hatric o Amcanion ac yn nodi'r deilliannau y mae'n rhaid iddynt fod yn eu lle er mwyn cyflawni ein amcanion.



THEORI NEWID



GWELLA IECHYD A LLESIANT



GWELLA IECHYD A LLESIANT

Rydyn ni eisiau helpu pawb i fyw bywyd iachach a mwy egniol, a gwella llesiant. Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i bobl yn ein cymunedau fyw bywydau iachach a hapusach.

Gwyddom fod lefelau amrywiol o anghydraddoldebau iechyd yn ein cymunedau a bod angen ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau parhaus hyn mewn canlyniadau iechyd. Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae heriau'n parhau, yn enwedig o ran iechyd meddwl a lles ymysg oedolion a phlant.

Mae mynd i'r afael â'r materion hyn yn gofyn am ddull amlochrog sy'n canolbwyntio ar y ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd ac sy'n meithrin amgylcheddau cynhwysol i bawb.

Rydyn ni'n defnyddio pŵer pêl-droed i ddod â phobl at ei gilydd ac ysbrydoli ein cymunedau i fyw bywyd egniol a chytbwys. O ystafelloedd dosbarth a iardiau ysgol lle mae ein rhaglen Symud a Dysgu yn ysbrydoli ac yn addysgu plant i fod yn egniol, i'n rhaglenni cymunedol sy'n helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol a chreu manau diogel i bobl ddod at ei gilydd, rydyn ni'n creu ymdeimlad o berthyn sy'n cyfrannu at lesiant.



Mae iechyd a lles wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud yn Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. Boed hynny drwy ddarparu pêl-droed cynhwysol, rhaglenni rheoli pwysau, mentora un-i-un neu ein grwpiau Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog, mae themâu cyffredin fel yr ymdeimlad o gymuned, perthyn a hunan-ddatblygiad yn amlwg ar unwaith.

**Chris Foot,
Cydlynnydd Anabledd a
Chydraddoldeb, Amrywiaeth a
Chynhwysiant**



GWELLA IECHYD A LLESIANT

Yn ystod y flwyddyn, ac ar draws ein holl raglenni lle arolygwyd 1,350 o ddefnyddwyr gwasanaeth:

Dywedodd

79%

o ddefnyddwyr y gwasanaeth fod eu hiechyd corfforol wedi gwella.

Dywedodd

92%

o ddefnyddwyr y gwasanaeth eu bod wedi teimlo gwelliant cadarnhaol yn eu lles meddyliol ac emosiynol.

Roedd

88%

o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cytuno bod ganddynt bellach well dealltwriaeth o fanteision bywyd egnïol

Astudiaeth Achos

STORI STEPH

Roedd Stephanie yn chwilio am ffyrdd o wella ei hiechyd corfforol a meddyliol. Cyn Adar Gleision Ffit – rhaglen iechyd am ddim i ddynion a menywod rhwng 35 a 65 oed sy'n awyddus i golli pwysau, bod yn fwy heini ac i fyw bywyd mwy egniol; roedd Stephanie yn dioddef o Anhwylder Straen Wedi Trawma, ac roedd yn cael trafferth gyda'i hiechyd meddwl ac mewn lle tywyll iawn.

Pan gyrhaeddodd Stadiwm Dinas Caerdydd ar gyfer ei sesiwn Adar Gleision Ffit gyntaf, cafodd Steph ei sicrhau ar unwaith ei bod yn ymuno â grŵp o fenywod a oedd mewn sefyllfa debyg iddi ac a wnaeth iddi deimlo nad oedd hi ar y daith hon ar ei phen ei hun.

Wrth i'r wythnosau fynd rhagdynt, dysgodd y grŵp fwy am bynciau a fyddai'n helpu i'w cefnogi i fyw bywyd iachach a mwy egniol, gan ymdrin â phynciau a oedd yn amrywio o bwysigrwydd cwsg i yfed alcohol a chynyddu eu cyfrif camau dyddiol.

I Steph, roedd yn llawer mwy na glynu wrth darged calorïau, roedd yn ymwneud â dysgu sut y gallai barhau i golli pwysau, datblygu arferion bwyta iach a gwella ei hiechyd meddwl a'i llesiant.

“

Rydw i wedi dweud sawl tro, y slogan ar gyfer y Sefydliad Cymunedol yw 'Mae Ein Clwb yn Newid Bywydau' ond i mi, fe wnaeth Adar Gleision Ffit achub fy mywyd.

**Stephanie,
Cyfranogwr Adar Gleision FIT**



“

**NI ALLAF DDYCHMYGU
LLE BYDDWN NAWR PE NA
BAWN WEDI CAEL Y CYFLE
I WNEUD HYN OHERWYDD
RHODDODD YMDEIMLAD
ENFAWR O HUNAN I MI.
DW I WEDI GALLU GWNEUD
NEWIDIADAU SYDD WEDI
GWNEUD I MI DEIMLO'N
WELL YN GORFFOROL AC YN
FEDDYLIOL.**

Stephanie,
Cyfranogwr Adar Gleision FIT



CEFNOGI DYSGU & SGILIAU



CEFNOGI DYSGU & SGILIAU

Rydyn ni'n benderfynol o wneud addysg a datblygu sgiliau yn hygyrch i bawb, a hynny wrth gael hwyl gyda phêl-droed.

Ers pandemig Covid 19, mae cyfraddau absenoldeb parhaus wedi codi, gydag iechyd meddwl a gorbryder yn cael eu nodi fel ffactorau sylweddol yng nghyfraddau absenoldeb ysgolion. Gwyddom o'n gwaith gyda'n partneriaid ym maes Addysg fod presenoldeb gwael yn yr ysgol a diffyg ymgysylltu nid yn unig yn effeithio ar gyflawniad addysgol ond hefyd yn arwain at oblygiadau cymdeithasol a datblygiadol o ran dyfodol plant.

Rydym yn gweld gwerth dulliau integredig o ran dysgu a lles ac yn cydnabod bod y materion rhyng-gysylltiedig hyn yn gofyn am ddulliau cydgysylltiedig i fynd i'r afael â nhw.

Rydyn ni yma i gefnogi Plant a Phobl Ifanc drwy eu taith ddysgu, gan weithio gyda phartneriaid sefydledig i ddarparu'r profiadau gorau posibl o'r dechrau i'r diwedd i addysg bellach ac uwch, mewn amgylcheddau addysg traddodiadol ac yn ein cymuned.

Ym myd dysgu a sgiliau, dyma sut mae ein rhaglenni wedi gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc yn ein cymunedau.



CEFNOGI DYSGU & SGILIAU

Yn ystod y flwyddyn, ac ar draws ein holl raglenni lle arolygwyd 1,350 o ddefnyddwyr gwasanaeth:

Nododd

70%

o ddefnyddwyr y gwasanaeth gynnydd yn eu sgiliau trosglwyddadwy megis hyder, datrys problemau a gwaith tîm.

Dywedodd

60%

o ddefnyddwyr y gwasanaeth eu bod wedi gwella eu hagwedd at ddysgu yn dilyn cymryd rhan mewn gweithgaredd addysgol gyda Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd.

Mynegodd

62%

o ddefnyddwyr y gwasanaeth ddiddordeb cynyddol mewn datblygiad personol, megis cyflawniadau addysgol, dyheadau gyrfa yn y dyfodol, a gwella sgiliau.

STORI RALPHY

Ralphy, disgybl 10 oed yn Ysgol Gynradd Parc Jenner yn y Barri, yn wynebu heriau dyddiol oherwydd epilepsi ac anawsterau dysgu a ddiagnoswyd yn ystod plentyndod cynnar. Mae ei gariad at bêl-droed, yn enwedig Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, yn rhoi gobaith yn ystod yr heriau hyn.

Cyn i Ralphy ymgysylltu â phrosiect Premier League Primary Stars a sesiynau Bluebirds Ability, roedd ei fywyd yn cylchdroi o gwmpas ymdopi â chyflyrau iechyd. Ond gyda gwersi Addysg Gorfforol ac ymyriadau wedi'u targedu mewn ABGI, gwelsom ei gariad at bêl-droed, gan addasu ei ymyriadau i gyd-fynd â'i angerdd. Roedd hyblygrwydd y rhaglen yn sicrhau bod Ralphy yn gallu cymryd rhan waeth beth fo'r heriau, gan hyrwyddo cydraddoldeb a chroesawu amrywiaeth.

Chwaraeodd yr hyfforddwyr Chloe a'r gi tywys Emily ran hollbwysig yn natblygiad Ralphy. Gan gymryd rhan yn Sesiynau Bluebirds Ability a chystadlaethau drwy gydol y flwyddyn, fe wnaeth Ralphy feithrin perthynas gadarnhaol â'r hyfforddwyr. Roedd rôl Chloe wrth reoli'r Ystafell Synhwyrdd ar ddiwrnod gêm yn sicrhau bod Ralphy yn gyfarwydd â hi ac yn gallu ei defnyddio'n hawdd.

Nid ar y maes yn unig yr effeithiodd y sesiynau hyn ar Ralphy, roeddent hefyd yn rhoi hwb i'w hyder a'i hunan-barch. Roedd yr amgylchedd cynhwysol yn gwneud iddo deimlo ei fod yn cyflawni. Roedd pêl-droed nid yn unig wedi gwella ei sgiliau corfforol ond hefyd wedi dod yn llwyfan i arddangos ei alluoedd. Roedd adborth cadarnhaol gan hyfforddwyr a chymheiriaid wedi meithrin hyder newydd, gan ei rymuso i wynebu heriau'n gadarnhaol.

Y tu hwnt i fanteision corfforol a meddyliol, cyfrannodd ymgysylltiad Ralphy'n sylweddol at ei ddatblygiad cyfannol. Roedd y ddarpariaeth yn cynnig lle unigryw ar gyfer twf personol, sy'n amlwg yn sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a lles emosiynol gwell Ralphy.



“

**RHODDODD PRIMARY
STARS HWŪ I FFOCWS,
GWAITH TIM A SGILIAŪ
ECHDDYGOL RALPHY, GAN
OSOD SYLFAEN GREŴ
AR GYFER LLWYDDIANT
CHWARAEON YN Y
DYFODOL.**

Mrs Hewitt,
Athro B16 yn Ysgol Gynradd Parc Jenner



**CREU
CYMUNEDAU
CRYFACH**



CREU CYMUNEDAU CRYFACH

Mae clybiau pêl-droed wrth galon cymunedau, gan wasanaethu fel hybiau hanfodol lle mae'r budd yn ymestyn y tu hwnt i'r cae. Rydyn ni'n credu ym mhŵer cysylltiad, ac rydyn ni wedi ymrwymo i greu cyfleoedd i bawb berthyn.

Mae ein rhaglenni'n defnyddio apêl unigryw Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, gan ddod â phobl at ei gilydd drwy rannu angerdd am bêl-droed a'r clwb, lle nad yw ffactorau fel oedran, anabledd, ffydd ac ethnigrwydd yn rhwystro pobl rhag cymryd rhan.

Rydyn ni'n creu cyfleoedd cynhwysol i unigolion gysylltu a chymryd rhan, drwy ddigwyddiadau sy'n addas i stadiwm, cydweithrediadau cymunedol, a sesiynau cymunedol pwrpasol. Rydyn ni'n hwyluso rhyngweithio sy'n helpu i gryfhau cydlyniant cymunedol, lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Rydym yn ymfalchïo mewn bod yn rym sy'n uno, gan ddefnyddio pŵer chwaraeon i ddod â chymunedau amrywiol at ei gilydd a chreu amgylchedd cynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u croesawu.



CREU CYMUNEDAU CRYFACH

Yn ystod y flwyddyn, ac ar draws ein holl raglenni lle arolygwyd 1,350 o ddefnyddwyr gwasanaeth:

Dywedodd

86%

o ddefnyddwyr y gwasanaeth eu bod yn teimlo mwy o berthyn yn eu cymuned.

Dywedodd

83%

o ddefnyddwyr y gwasanaeth eu bod wedi gweld gwelliant sylweddol yn eu perthynas â'u cymheiriaid, gan bwysleisio dylanwad ein hymdrechion cydweithredol yn y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt.

Dywedodd

96%

o ddefnyddwyr y gwasanaeth eu bod wedi rhyngweithio ag unigolion o wahanol gefndiroedd a diwylliannau wrth gymryd rhan mewn sesiynau Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, gan bwysleisio rôl ein rhaglenni o ran meithrin cynhwysiant a meithrin cysylltiadau cymunedol.

Astudiaeth achos

PROSIECT FFOADURIAID

Mewn partneriaeth ag Adran Adsefydlu Ffoaduriaid Cyngor Caerdydd, gwnaethom gefnogi teuluoedd a oedd yn byw ledled Caerdydd.

Gan addasu ac ymateb yn gyflym i amgylchiadau newidiol ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn y ddinas, gwnaethom greu rhaglen gymorth gan gynnwys profiadau Premier League Kicks, gwersylloedd pêl-droed hanner tymor a thwrnameintiau a fyddai'n helpu i gynyddu eu lles corfforol a meddyliol a chynnig llwybr i weithgareddau cymunedol eraill, gan helpu i greu ymdeimlad cymunedol cydlynol.

Roedd ein hyfforddwyr yn darparu sesiynau hyfforddi pêl-droed wedi'u cynllunio nid yn unig i gael cyfranogwyr i fod yn egniol ond i wella sgiliau iaith Saesneg a'u harfogi â'r adnoddau i allu parhau â sesiynau pêl-droed ar ôl eu cyfnod adsefydlu ac integreiddio mewn cymunedau lleol.

Roeddem hefyd wedi creu cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol ehangach, gan gynnig teithiau i fuddiolwyr o Stadiwm Dinas Caerdydd, profiadau diwrnod gêm a defnyddio'r cyfleusterau chwaraeon rydyn ni'n eu defnyddio ar draws y Ddinas.

Mae effaith y sesiynau hyn yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r maes, ac fe wnaethant greu trefn y mae mawr ei hangen drwy greu mannau diogel a chymdeithasol i unigolion a oedd wedi wynebu heriau enfawr a dadleoli.

Mae'r prosiect hwn yn dangos bod pêl-droed yn gallu goresgyn rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol, gan alluogi cyfranogwyr i ddod o hyd i lawenydd a chyfeillgarwch ar y cae, meithrin ymdeimlad o berthyn, a meithrin cysylltiadau newydd yn y gymuned. Mewn cyfnod o argyfwng, gall chwaraeon fod yn offeryn pwerus ar gyfer gwella a dod â chymunedau at ei gilydd.

“

Yn wyneb adfyd, mae'r gêm hyfryd yn ein huno ni i gyd. Mae darpariaeth sesiynau pêl-droed Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i blant ac oedolion sy'n ffoaduriaid o Affganistan yn enghraifft o bŵer chwaraeon i wella, i ysbrydoli ac i bontio gwahaniaethau. Drwy'r fenter hon, maent nid yn unig wedi dysgu sgiliau pêl-droed ond hefyd wedi rhoi gobaith ac ymdeimlad o berthyn, gan gael effaith gadarnhaol barhaol ar fywydau'r rhai sy'n ceisio lloches a dyfodol mwy disglair.

**Wali Mohammad,
Rheolwr Prosiect Ailsefydlu Ffoaduriaid,
Cyngor Caerdydd**



“

**MAE'R FENTER YN EIN
HATGOFFA, DRWY EMPATHI,
DEALLTWRIAETH AC
ANGERDD A RENNIR, Y
GALLWN DDOD AT EIN
GILYDD I GREU DYFODOL
GWELL I BAWB, WAETH
BETH FO'U CEFNDIR NEU EU
HAMGYLCHIADAU.**

Wali Mohammad,
Rheolwr Prosiect Ailsefydlu Ffoaduriaid,
Cyngor Caerdydd



CYLLID




Cyfanswm yr Incwm / Gwariant

2022/23




2021/22



Ble ydyn ni'n cael ein harian?

2022/23



Contractau

30%

Defnyddwyr

6%

Rhoddion


13%

Grantiau

51%

Ble mae ein harian yn mynd?

2022/23



Gweithgareddau
Elusennol

88%

Codi Arian

2%

Costau Cefnogi

10%

*Cyfrifon heb eu harchwilio

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH

Mae popeth rydym wedi'i gyflawni eleni wedi bod yn bosibl drwy haelioni ein cefnogwyr ac ni allwn ddiolch digon i chi.

Mae'r dirwedd ar gyfer pob elusen wedi bod yn heriol ac wedi dwysáu oherwydd yr argyfwng costau byw a'r arwyddion o ddirywiad economaidd. Rydym yn ymwybodol bod y ffactorau hyn nid yn unig yn effeithio arnom ni ond ar ein cymunedau hefyd wrth i lawer o aelwydydd geisio delio â chyllidebau mwy cyfyng.

Dyna pam ein bod yn wirioneddol ddiolchgar i bawb sydd wedi ein cefnogi dros y flwyddyn ddiwethaf – diolch i chi i gyd am eich ymdrechion enfawr, boed hynny'n rhedeg Hanner Marathon Caerdydd neu drefnu digwyddiad codi arian yn yr ysgol, mae pob rhodd yn bwysig.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl unigolion, ysgolion, grwpiau cymunedol, busnesau, ymddiriedolaethau elusennol a sefydliadau am eu cefnogaeth. Gobeithio eich bod yn falch o'r hyn rydych chi wedi ein helpu ni i'w gyflawni eleni.

Wrth i ni symud i'n strategaeth bum mlynedd newydd, mae cymaint mwy yr hoffem ei gyflawni yn ein cymunedau, ond mae angen eich help arnom.

Cyfeiriwch atom ni

Ydych chi'n adnabod rhywun a allai elwa o'n gwasanaethau? Gadewch iddyn nhw wybod amdanom ni.

Rhannwch ein stori

Allwch chi rannu ein stori gyda'ch rhwydwaith?
www.cardiffcityfcfoundation.org.uk/cy/

Dod yn bartner cyflenwi

Allai eich sefydliad weithio mewn partneriaeth â ni i ddarparu rhaglen sy'n newid bywydau? Cysylltwch â ni.

Cefnogi ein hamcanion

Hoffech chi roi arian? Neu godi arian i ni? Byddai ein tîm wrth eu boddau'n clywed gennych chi.

CYNLLUNIAU A DATBLYGIAD YN Y DYFODOL

#1

Dull Seiliedig ar Leoedd

Er mwyn cynyddu ein cyrhaeddiad mewn cymunedau, rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd. Drwy ganolbwyntio ar ardaloedd penodol y mae angen ein cymorth arnynt, gallwn deilwra ein mentrau i fynd i'r afael â heriau a dyheadau unigryw'r cymunedau hyn a dod yn rhan fwy integredig o'r ecosystem.

Mae'r dull gweithredu hwn sydd wedi'i dargedu nid yn unig yn gwella ein presenoldeb ond hefyd yn gwneud y mwyaf o'r canlyniadau cadarnhaol, gan greu effaith fwy ystyrlon a chynaliadwy yn yr ardaloedd rydym yn ceisio eu gwasanaethu.

#2

Ehangu Cynigion Addysg

Rydyn ni'n ehangu cyfleoedd addysg yn Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. Mae ein cynnig Addysg Bellach i bobl ifanc 16 i 18 oed yn parhau i ffynnu. Rydym hefyd yn cynyddu lleoliadau myfyrwyr yn ein rhaglenni Addysg Uwch, sydd bellach yn cynnig BA (Anrh) aml-flwyddyn mewn Busnes a Rheoli Chwaraeon. Ar ben hynny, rydym ni'n cyflwyno Prentisiaethau Iau newydd sbon ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25, gan gyfoethogi ein cynigion addysgol ymhellach.

#3

Ymyriadau Iechyd

Yn Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, rydym ni wedi ymrwymo i gefnogi iechyd a lles. O integreiddio gweithgarwch corfforol mewn gweithgareddau bob dydd i ymyriadau wedi'u targedu, rydym ni'n gweithio ochr yn ochr â byrddau iechyd lleol i gefnogi ffyrdd iach o fyw. Drwy Adar Gleision Ffit, rydym ni'n cynnig cymorth parhaus ar gyfer rheoli pwysau'n iach. Trwy ein Sgyrsiau Tîm rydym ni'n cynnig cymorth iechyd meddwl a thrwy ein Clwb 1927 rydym ni'n darparu lle sy'n ystyriol o ddementia i bobl allu cysylltu a hel atgofion. Rydym yn bwriadu ehangu ein gwaith yn y maes hwn dros y flwyddyn nesaf.

PARTNERIAID A CHEFNOGWYR



CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Leighton Andrews
Cadeirydd

Katie Dalton

Steve Borley
Is-Gadeirydd

Andrew Diplock

Chris Hatcher
Trysorydd

Shikala Mansfield

Ali Abdi

Kerys Sheppard

Ken Choo

Catrin Stark

Hywel Dafydd

Gavin Hawkey

Cyfarwyddwr y Sefydliad

Gavin.Hawkey@cardiffcityfc.org.uk

  @Cardiff City FC Foundation

  @CCFC_Foundation

Tŷ Chwaraeon Dinas Caerdydd
Clos Parc Morgannwg
Caerdydd
CF11 8AW

cardiffcityfcfoundation.org.uk
info@cardiffcityfc.org.uk
02920 231 212





**COMMUNITY
FOUNDATION**

**NEWID BYWYDAU,
TRAWSNEWID
CYMUNEDAU**